# JONES, EDWARD ('Iorwerth Goes Hir '; 1824 - 1880), bardd, cerddor, a gwleidyddwr

**Enw:** Edward Jones
**Ffugenw:** Iorwerth Goes Hir
**Dyddiad geni:** 1824
**Dyddiad marw:** 1880
**Plentyn:** Edward Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd, cerddor, a gwleidyddwr
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth; Barddoniaeth; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
**Awdur:** Daniel Bertram Jones

Ganwyd yn T   Cynnes, Llansantffraid, Glyndyfrdwy. Cobler oedd wrth ei alwedigaeth a bardd wrth natur. Ysgrifennodd lawer yn y mesurau caeth a rhydd. Rhagorai fel englynwr a chipiodd y wobr yn eisteddfod genedlaethol Aberystwyth am ei englyn ar ' Chwilen Colorado.' Yr oedd hefyd yn gerddor dawnus ac yn wleidyddwr goleuedig. Yr oedd yn aelod o frawdoliaeth farddol bur adnabyddus yn nyffryn Edeirnion a gynhwysai ' Dewi Havhesp ' (teiliwr), ' Rhuddfryn ' (saer maen), ' Llew Hiraethog ' (amaethwr), ' Elis Wyn o Wyrfai ' (rheithor Llangwm), ac eraill. Golygwyd ei farddoniaeth gan ' Rhuddfryn' a chyhoeddwyd hi, gyda rhagair gan Dr. Cernyw Williams, yn swyddfa'r *Wythnos*, Corwen, 1881. Bu farw 14 Ebrill 1880.

## Awdur

**Daniel Bertram Jones**, (1888 - 1971)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu